Great Eggcase Hunt

# CRYNODEB PROSIECT SIARC

Ebrill 2024 - Mawrth 2025

SIARC

## Gair amdanom ni

Mae Great Eggcase Hunt y Shark Trust wedi bod yn sicrhau fod aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn cadwraeth siarcod ers 2003. Drwy gofnodi casys wyau siarcod a morgathod (a elwir hefyd yn byrsau morforwyn) sy'n cael eu golchi ar y traeth, neu'r rhai a welir yn datblygu o dan y dŵr, mae'n bosibl inni gael gwell dealltwriaeth o bresenoldeb ac amrywiaeth rhywogaethau ofiparol (sy'n dodwy wyau) yn nyfroedd Prydain.

Ap a Ffurflen Gofnodi

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau) yn brosiect amlddisgyblaethol sy'n gweithredu ledled Cymru, ac yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned ac ymchwil mewn dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Cafodd Prosiect SIARC ei lansio ym mis Tachwedd 2021, ac mae bellach wedi cwblhau ail flwyddyn ei ail gyfnod! Fel rhan o Brosiect SIARC, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT) yn trefnu helfeydd casys wyau ledled Gogledd Cymru, ac mae'r holl ddata'n cael ei gyflwyno i Great Eggcase Hunt y Shark Trust. Hefyd, maen nhw wedi hyfforddi nifer o Hyrwyddwyr Casys Wyau sy'n cynnal eu helfeydd casys wyau eu hunain yn rheolaidd ac yn rhoi gwybod am eu canfyddiadau o ddarn o draeth y maen nhw wedi'i fabwysiadu. Ond gallwch chi gymryd rhan heb orfod mynd i ddigwyddiad sydd wedi'i drefnu! Rydym yn annog cymunedau arfordirol i gynnal helfeydd casys wyau hunan-arweiniedig a chofnodi unrhyw ganfyddiadau (gyda lluniau!) ar gyfer y Great Eggcase Hunt, gan ddefnyddio naill ai'r Hwb Cofnodi ar-lein (sydd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg) neu ap gwyddoniaeth dinasyddion Shark Trust.

**Dyma beth mae cyfranogwyr Prosiect SIARC wedi'i ganfod ar draws yr ardal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf...**


## YSTADEGAU ALLWEDDOL

01 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025
CYFNOD 2 - BLWYDDYN 2


Cyfanswm nifer yr
**HELFEYDD CASYS WYAU**
**145**


**426**
**O GYFRANOGWYR**
mewn digwyddiadau dan arweiniad NWWT


**7 RHYWOGAETH WEDI'U COFNODI**



Cyfanswm nifer y
**O CASYS WYAU A GOFNODWYD: 12,650**




## DIGWYDDIAD HYRWYDDWYR HARLECH

Ym mis Mawrth 2025, daeth staff Prosiect SIARC (o Shark Trust, NWWT, Cyfoeth Naturiol Cymru a ZSL) a phedwar ar ddeg o Hyrwyddwyr Casys Wyau Prosiect SIARC ynghyd yn Harlech ar gyfer digwyddiad dathlu.

Ar ôl helfa casys wyau lwyddiannus iawn (daethant o hyd i dros 200 o gasys wyau mewn awr a hanner: 137 o Forgwn Brych, 29 o Forgathod Mannog, 29 o Forgathod Styds a 14 o Forgwn Lleiaf) aethom yn ôl i neuadd y dref am gyfres o gyflwyniadau a oedd yn ymdrin â thwf yr Great Eggcase Hunt, prif bwyntiau ffocws Prosiect SIARC ac archwiliad dwfn o'r data sydd wedi'i gasglu hyd yma.

Roedd hi'n hyfryd gweld cynifer o Hyrwyddwyr Casys Wyau wedi ymgynnull, ac rydym yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiad arall i ddathlu yn 2026!



Hyrwyddwyr y Great Eggcase Hunt a staff Prosiect SIARC yn Harlech ym mis Mawrth 2025
Nia Jones | NWWT

WWW.EGGCASE.ORG


Prosiect ar y cyd yw Prosiect SIARC sy'n cael ei arwain gan ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac On the Edge.

# Y COFNODWYR GORAU

Mae NWWT yn cynnal llawer o ddigwyddiadau hela casys wyau grŵp, ac yn casglu canfyddiadau casys wyau'r rhai sy'n mynychu, felly mae eu cyfraniadau yn cyfrif am tua 12% o'r casys wyau a gyflwynir ar ran Prosiect SIARC ac yn gynrychioliadol o grŵp mwy o bobl.


Ar wahân i'r digwyddiadau hyn sy'n cael eu cynnal gan NWWT, y 5 gorau am gofnodi ar gyfer Prosiect SIARC eleni oedd:

**Y 5 Gorau**

1. Elaine Blanchard - **5,809**
2. Endeavour Society - **2,714**
3. Teri & Bob - **1,329**
4. Charles & Clare - **522**
5. Paul Magill - **256**

# LLEOLIADAU CASYS WYAU

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, cofnodwyd 12,650 o gasys wyau mewn ychydig mwy na 30 o leoliadau o amgylch Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae maint y siartiau cylch yn gyfrannol â nifer y casys wyau a gofnodwyd yn yr ardal honno.




© OpenStreetMap contributors | openstreetmap.org



Casys wyau'r Morgi lleiaf (*Scyliorhinus canicula*) a ganfuwyd yn Nhywyn
Paul Magill




Casys wyau'r Forgath lygaid-bach (*Raja microocellata*) a'r Forgath ddreiniog (*Raja clavata*) a ganfuwyd ym Mhlas Heli
Teri & Bob

# CANFYDDIADAU ANARFEROL

Fel arfer yng Ngogledd Cymru rydych chi'n dod o hyd i gasys wyau pedair rhywogaeth: Morgath ddreiniog (40% o'r casys wyau a gofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf), Morgwn Brych (36%), Morgwn Lleiaf (17%) a Morgathod Mannog (7%). Mae hwn yn newid mawr o'i gymharu â'r llynedd pan oedd mwy na 60% o'r casys wyau a ganfuwyd yn rhai oedd yn perthyn i'r Morgi Brych!

Fodd bynnag, weithiau gellir dod o hyd i gasys wyau wyau rhywogaethau eraill. Eleni rhai o'r casys wyau mwyaf anarferol a gofnodwyd fel rhan o Brosiect SIARC oedd: 10 cas wyau yn perthyn i'r Forgath Lygadog, 4 cas wyau'r Forgath Felen ac 1 cas wyau yn perthyn i'r Forgath Lygaid Bach.

Mae dau gas wyau morgath drwynfain wedi cael eu hadrodd (ond nid fel rhan o Brosiect SIARC), canfuwyd un ar Ynys Môn ym mis Ionawr 2025 a'r llall yn Llanrhystud ym mis Ebrill 2024!

Mae cyfle bob amser i ddod o hyd i gasys wyau anarferol, felly cadwch lygad allan!



Gall hyd yn oed anifeiliaid anwes ddod o hyd i gas wyau ar y traeth!
Boo / Jan Clark

# CYMERWCH RAN

Er mwyn cael gwybod mwy am ddigwyddiadau Great Eggcase Hunt yng Ngogledd Cymru, ewch draw i dudalen ddigwyddiadau Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Os oes gennych ddiddordeb mewn hyfforddi i ddod yn Hyrwyddwr Casys Wyau Prosiect SIARC a mabwysiadu eich darn eich hun o draeth, cysylltwch â NWWT yn info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Brosiect SIARC a ffyrdd eraill o gymryd rhan, gweler prif wefan Prosiect SIARC.

Er mwyn cael gwybod mwy am Great Eggcase Hunt y Shark Trust yng ngweddill y DU ac o amgylch y byd, ewch i eggcase.org.

**WWW.EGGCASE.ORG**

Prosiect ar y cyd yw Prosiect SIARC sy'n cael ei arwain gan ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac On the Edge.

Shark Trust | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales | ZSL Zoological Society of London | Cronfa Treftadaeth / Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government | ON THE EDGE